**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Addysg

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 15 Gorffennaf 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A M Day | D W Helliwell |
| B Hopkins | L James | R V Smith |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Robert Smith | Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Helen Burgum | Pennaeth Ysgol Uwchradd yr Esgob Gore |
| Gareth Rees | Pennaeth Ysgol Uwchradd Pontarddulais |
| Rachel Thomas | Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Uwchradd Pontarddulais |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): S J Gallagher, S M Jones, M A Langstone a/ac L J Tyler-Lloyd

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Dim

## 2 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim

## 3 Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2021.

## 4 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 5 Strategaeth Ymddygiad, sut mae gwariant dirprwyedig ysgolion yn cael ei ddefnyddio

Gwahoddodd y Panel ddau Bennaeth o wahanol ysgolion uwchradd mewn gwahanol rannau o Abertawe i drafod sut maent yn defnyddio'r arian a ddirprwywyd iddynt fel rhan o'r strategaeth ymddygiad. Roeddent am ddarganfod sut mae ysgolion yn defnyddio'r arian hwn i leihau atgyfeiriadau i Wasanaethau Addysg Heblaw yn yr Ysgol, i ailgyflwyno disgyblion yn ôl i ysgolion ar ôl mynychu gwasanaethau o'r fath a materion eraill sy'n ymwneud ag ymddygiad.

Daeth Helen Burgum, Pennaeth Ysgol Uwchradd Esgob Gore, a Gareth Rees, y Pennaeth a Rachel Thomas, Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Uwchradd Pontarddulais, i gyfarfod y Panel. Gwnaeth y ddau gyflwyniad PowerPoint ar gwestiynau allweddol a anfonwyd atynt gan y Panel cyn y cyfarfod, sef:

1. Sut ydych chi'n defnyddio'ch gwariant dirprwyedig, sy'n gysylltiedig â'r strategaeth ymddygiad, i leihau gwaharddiadau ac atgyfeiriadau i EOTAS?
2. Allwch chi roi rhai enghreifftiau i ni o ble mae hyn wedi bod o fudd i ddisgyblion yn eich ysgolion?
3. Sut mae'r tarfu ar addysg a achoswyd gan y pandemig wedi effeithio ar eich gwaith yn y maes hwn a beth fu'r effaith ar ddisgyblion? A sut ydych chi'n gobeithio y bydd pethau'n newid yn y dyfodol?'
4. Pa mor dda y mae'n eich helpu i ailintegreiddio disgyblion yn ôl i'r brif ffrwd ar ôl bod yn EOTAS?
5. Sut ydych chi'n teimlo bod y strategaeth ymddygiad gyffredinol yn gweithio er budd disgyblion ar hyn o bryd?
6. Yn eich barn chi, a ellid gwella hyn?

Amlinellodd Ysgol Uwchradd Pontarddulais:

- Gyd-destun yr ysgol: 846 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn gyffredinol 17.5% o ddisgyblion cPYDd, 23% o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Mae llawer o'r gwaith o ran materion ymddygiad yn digwydd yn y Tîm o Gwmpas y Plentyn, ac yma y defnyddir y cyllid dirprwyedig o'r strategaeth ymddygiad. Mae hyn yn cynnwys yn ehangach, er enghraifft, gymorth bugeiliol, ADY, Gyrfa Cymru, nyrs ysgol ac ati.
- Mae Tŷ Dysgu, uned sy'n cefnogi disgyblion sy'n cael trafferth gydag ymddygiad yn y ddarpariaeth brif ffrwd, yn allweddol i hyn ac wrth fynd i'r afael ag ymddygiad a gostyngiadau mewn atgyfeiriadau i'r gwasanaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Mae cyllid o wariant dirprwyedig yn mynd tuag at ariannu 3 athro a chydlynydd ar gyfer y ddarpariaeth hon.
- Darparwyd hyfforddiant i athrawon ar y Strategaeth Ffynnu, ac mae hon yn ymagwedd sy'n helpu athrawon i ddatblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.
- Mae'r gwaith hwn wedi lleihau nifer y gwaharddiadau ac atgyfeiriadau EOTAS yn aruthrol ac mae wedi cynyddu hyder disgyblion o amgylch yr ysgol.
- Mae rhai o'r mentrau/gweithgareddau'n cynnwys, er enghraifft Bulldog Boxing, diwrnodau Trawsnewid a phrosiect Paw-fact Baxter
- Effeithiodd y pandemig ar ein gwaith yn y maes hwn fel a ganlyn: ymweliadau awyr agored, defnyddio darparwyr allanol, cynnydd mewn gwaharddiadau cyfnod penodol – ailsefydlu ffiniau, dros yr hanner tymor diwethaf cafwyd gwelliant amlwg

mewn ymddygiad o amgylch yr ysgol. Mae disgyblion wedi addasu'n arbennig o dda, fodd bynnag bu pwysau ar staffio a chostau i weithio ar faterion a wynebir
- Rydym yn integreiddio disgyblion yn ôl i'r brif ffrwd ar ôl bod yn EOTAS gan ddefnyddio ymagwedd hybrid/amserlenni pwrpasol - cymysgedd o Dŷ Dysgu a darpariaeth brif ffrwd. Mae gan bob disgybl aelod allweddol dynodedig o staff.
- Yn ein barn ni, gellid gwella'r ddarpariaeth hon drwy barhau â chyllid Cynnydd (a amlygwyd yng nghyfarfod Cymdeithas Penaethiaid Uwchradd Cyngor Sir Abertawe), ariannu cyn 14-16 oed i atal atgyfeiriadau EOTAS a hyfforddi mwy o staff yn yr ymagwedd Thrive

Amlinellodd Ysgol Uwchradd yr Esgob Gore:
- Gyd-destun yr ysgol gan gynnwys 11-18 oed yn gynhwysol, gyda dalgylch amrywiol mawr.
- Defnyddio gwariant dirprwyedig, sy'n gysylltiedig â'r strategaeth ymddygiad, i leihau gwaharddiadau ac atgyfeiriadau i EOTAS gan ddefnyddio'n 'Darpariaeth Anogaeth' (B-Hi5) a 'Phecyn cymorth ar gyfer dechrau a diwedd dydd' (Pitstop) yn CA3 ac mae ein 'Pontio i Ddarpariaethau Oedolion' (Mi-Pod ac ELEV8) yn CA4 yn ymdrechu i ddarparu amgylcheddau dysgu cefnogol sy'n ysgogol ac yn heriol, lle caiff disgyblion eu hannog, a'u canmol er mwyn datblygu hunanymwybyddiaeth a disgyblaeth.
- Nod y ddarpariaeth yw galluogi disgyblion i weithio'n gyfannol gyda phartneriaid y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol a darparu cwricwlwm sy'n briodol i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, datblygiadol, cymdeithasol ac ysbrydol yr unigolyn.
  Yr effaith fu gwell presenoldeb, atal gwaharddiadau parhaol, lleihau lleoliadau EOTAS, 100% yn llwyddo yn SWEET L2 ers ei gyflwyno a 100% yn llwyddo yn L2 Cyflawni ers ei gyflwyno
- Mae rhai enghreifftiau'n unig o lle mae hyn wedi bod o fudd i ddisgyblion yn eich ysgol yn cynnwys: ailintegreiddio llwyddiannus o ddarpariaeth EOTAS, atal atgyfeiriad EOTAS neu lai o risg o hynny'n digwydd, llai o risg o waharddiadau parhaol neu eu hatal, ailintegreiddio ar gyfer gwrthodwyr ysgolion a'r rheini sy'n profi pryder ysgol
- Roedd yr amhariad i addysg a achoswyd gan y pandemig wedi effeithio ar y gwaith ac ar ddisgyblion:
  - Effaith negyddol ar iechyd meddwl a lles rhai disgyblion ac mae rhai disgyblion wedi profi trawma ychwanegol.
  - Mae rhai disgyblion sy'n agored i niwed wedi profi argyfwng/profedigaeth a phryderon ariannol/colli cyflogaeth.
  - Amharwyd ar drefn ddyddiol y disgyblion. Diffyg goddefgarwch tuag at eraill.
  - Nid oedd disgyblion agored i niwed yn cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu cyfunol (anfodlon/amharod/rhy bryderus i gymryd rhan mewn dysgu ar-lein)
  - Nid oedd disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion ychwanegol gan gynnwys anawsterau cymdeithasol emosiynol neu ymddygiadol (ACEY) yn gallu cael gafael ar y gefnogaeth a dderbynnir fel arfer yn yr ysgol.
  - Nid oedd gwasanaethau cefnogi'n gallu gwneud gwaith uniongyrchol wyneb yn wyneb ac felly gwrthododd teuluoedd gefnogaeth a gwrthodont ymgysylltu o bell.
  - Mae llawer o wrthodwyr ysgol/absenolwyr mynych wedi gwrthod dychwelyd i'r ysgol, felly rydym yn gweithio gyda Swyddog Lles Addysg.
  - Mae'r asesiadau risg a'r canllawiau gweithredol presennol yn atal disgyblion rhag cael gafael ar gefnogaeth. Mae'r mesurau diogelwch presennol yn

atal/cyfyngu ar lawer o weithgareddau sy'n mynd i'r afael ag anghenion y disgyblion hynny sy'n profi anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r offer y mae staff yn eu defnyddio i ymgysylltu â disgyblion a'u hysgogi'n llawer llai.

- Sut ydych chi'n teimlo bod y strategaeth ymddygiad gyffredinol yn gweithio er budd disgyblion ar hyn o bryd? Hebddo, byddai gennym nifer sylweddol o ddisgyblion na fyddem wedi ymgysylltu â hwy neu wedi gallu eu cefnogi mewn ffordd hyblyg i ddiwallu eu hanghenion o ystyried y sefyllfa sy'n newid.
- Gellid gwella'r strategaeth ymddygiad drwy'r strategaethau ac mae angen i ymagweddau fod yn hyblyg i ddiwallu anghenion newidiol y disgyblion. Mae hyn yn golygu gwella sgiliau staff i sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant fel ELSA (Cynorthwy-ydd Cefnogi Llythrennedd Emosiynol), CBT etc. Mae hyn yn gostus ond mae angen yr ystwythder arnom i ymateb yn gyflym.
  - Mae angen i ni hefyd ddatblygu rhaglenni sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, goddefgarwch a diogelu cyd-destunol. Mae mentrau fel Anogwyr Dysgu Cynnydd yn helpu ac yn cefnogi'n disgyblion i edrych ar lwybrau a hunanreoleiddio. Ariennir grantiau ar gyfer y rolau hyn ac mae'r arian yn dod i ben ar gyfer llawer o'r mathau hyn o brosiectau.
  - Rydym eisoes yn rhoi cymhorthdal ar gyfer ein darpariaeth ac mae angen i ni sicrhau bod rolau a darpariaeth yn gynaliadwy i alluogi cynllunio i barhau i ddiwallu anghenion dysgwyr o ystyried y materion penodol iawn sydd bellach yn dod i'r amlwg o ganlyniad i'r pandemig.

Roedd y Panel:

- yn dymuno diolch i'r ysgolion ar ran y disgyblion. Roedd clywed am y mentrau a'r arfer da wrth gyflwyno ymddygiad cadarnhaol wedi creu argraff arnynt.
- Maent yn cydnabod bod gan bob ysgol ei heriau ei hun ac mai ymateb pwrpasol yr ysgolion i hyn oedd y ffordd gywir o fynd i'r afael â hyn ond roedd y panel yn awyddus i ddarganfod sut mae'r holl arfer da sy'n cael ei ddysgu'n cael ei rannu. Clywodd y Panel fod nifer o ddulliau ar gyfer rhannu arfer da yn ffurfiol ac mae'r rhain hefyd yn arwain at rannu anffurfiol rhwng ysgolion ac addysgwyr. Er enghraifft SCCASH, adneuon arfer ar lwyfannau ar-lein, yn rhanbarthol ac yn lleol; mae Estyn hefyd yn tynnu sylw at feysydd o arfer rhagorol y gellir eu cyrchu drwy ei wefan.

6 **Adborth gan Grwp Cynghorwyr Craffu ERW ar 28 Mehefin 2021 (Cynullydd)**

Rhoddodd Cynullydd y Panel, y Cynghorydd Lyndon Jones, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ei bresenoldeb diweddar yng nghyfarfod Grŵp Cynghorwyr Craffu Rhanbarthol ERW ar 28 Mehefin 2021. Hysbysodd y Panel ynghylch rhywfaint o'r hyn a drafodwyd gan gynnwys:

- Y bydd ERW yn dod i ben ar 31 Awst 2021 a bydd Partneriaeth Addysg newydd De-orllewin Cymru'n dechrau ar 1 Medi 2021
- Bydd yn bartneriaeth lai a fydd yn cynnwys Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe ond efallai y bydd yn bosib i awdurdodau lleol eraill brynu gwasanaethau i mewn oddi wrth y bartneriaeth newydd.
- Pryderon a godwyd ynghylch cost dirwyn ERW i ben ac am gostau sefydlu'r bartneriaeth newydd a phwy fydd yn cyfrannu at y rhain.
- Hefyd mae angen cytuno ar faterion fel rheolau ymgysylltu ac ymddwyn a phleidleisiau atal.

- Anfonwyd llythyr yn ddiweddar at Gadeirydd Cyd-bwyllgor ERW yn rhoi barn y Grŵp Cynghorwyr Craffu. Gofynnwyd am ymateb i hynny cyn i ERW ddod i ben. Bydd yr ymateb hwn yn cael ei grybwyll wrth Banel Craffu Addysg Abertawe a bydd hefyd yn cael ei roi ar yr agenda ar gyfer Pwyllgor y Rhaglen Graffu er gwybodaeth.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg ddiweddariad i'r Panel ar y cynnydd a wnaed ers cyfarfod Grŵp Cynghorwyr ERW ar 28 Mehefin, gan gynnwys:

- Mae Cyd-bwyllgor Partneriaeth Addysg Cysgodol De-orllewin Cymru wedi cyfarfod, mewn cyfarfod caeëdig.
- Trafodwyd pryderon a godwyd gan y Grŵp Cynghorwyr Craffu yn y cyfarfod hwn. Roeddent yn cytuno bod angen gwneud gwaith i ddirwyn ERW i ben.
- Nid oedd Powys am adael ERW ond gwnaed cytundeb mewn egwyddor y bydd gwasanaethau'r Bartneriaeth newydd ar gael i awdurdodau lleol eraill.
- Bydd cytundeb cyfreithiol newydd yn mynd i Gabinet/gyngor pob awdurdod lleol.
- Cydnabuwyd na fyddai ERW yn dirwyn i ben yn llawn erbyn 31 Awst, bydd angen cyfnod pontio. Bydd y cytundeb cyfreithiol newydd yn mynd â ni yno.
- Cyn i ni symud ymlaen o'r bartneriaeth bresennol, mae angen i ni ddeall rhwymedigaethau amodol partneriaid presennol ERW. Mae'r cytundeb presennol yn nodi bod gan awdurdodau lleol rwymedigaethau o 100% yn y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn ac yna mae'n raddfa symudol o'r fan honno. Bydd y strwythur staffio'n pennu'r gost i bartïon presennol.
- Mae'r strwythur staffio ar gyfer y bartneriaeth newydd wedi bod yn gostwng yn gymesur â'r corff newydd gyda gostyngiad cytbwys o oddeutu 40%.
- Bydd y strwythur Llywodraethu'n ymddangos yn y cytundeb cyfreithiol newydd. Mae hyn ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd ac mae angen ei gwblhau ond mae wedi datblygu'n ddogfen eithaf da. Mae'n cynnwys rhai o'r materion a godwyd gan y Grŵp Cynghorwyr Craffu ar 28 Mehefin ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y drafft hwnnw. Mae gwaith i'w wneud o hyd a bwriedir i'r cytundeb cyfreithiol drafft fynd i bob Awdurdod Lleol yn yr hydref.
- Bydd gan y Bartneriaeth newydd gynllun busnes clir sy'n nodi'r blaenoriaethau wrth symud ymlaen. Mae'n bwysig bod y cynllun cyflawni hwn yn cael ei ddeall fel rhan allweddol o'r bartneriaeth ac i waith craffu rhanbarthol ddwyn hynny i gyfrif.
- Cynigir statws sylwedydd i aelod o'r corff craffu rhanbarthol newydd i fynychu cyfarfodydd Cyd-bwyllgor y bartneriaeth newydd yn unol â chais y Grŵp Craffu.

## 7 Cynllun Gwaith 2021 - 2022

Derbyniwyd y rhaglen waith.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.15 pm

To:
**Councillor Robert Smith**
**Cabinet Member for Education Improvement, Learning and Skills**

**BY EMAIL**

*Please ask for: / Gofynnwch am:* Michelle Roberts
*Scrutiny Office Line: / Llinell Uniongyrochol:* 01792 637256
*e-Mail / e-Bost:* scrutiny@swansea.gov.uk
*Date / Dyddiad:* 2 August 2021

**Summary:** This is a letter from the Education Scrutiny Performance Panel to the Cabinet Member for Education Improvement, Learning and Skills following the meeting of the Panel on 15 July 2021 looking at the behavior strategy and at changes to the regional education partnership.

Dear Cllr Smith,

**Education Scrutiny Performance Panel – 15 July 2021**

We would like to thank the Headteacher's from Bishop Gore and Pontarddulais Secondary Schools for attending our meeting, as well as yourself and the Director of Education. We are writing to you to reflect on what we learnt from the discussion and to share the views of the Panel.

We invited the two Headteacher's from different Secondary Schools in different parts of Swansea to discuss how they are using the monies they have been delegated as part of the behaviour strategy. We wanted to find out how schools are using these monies to reduce referrals to Education Other Than At Schools Services, to re-introduce pupils back into schools after attending such services and other behaviour related issues.

We were pleased to hear from Helen Burgum the Headteacher at Bishop Gore Secondary School, Gareth Rees the Headteacher and Rachel Thomas the Assistant Headteacher at Pontarddulais Secondary School. Both schools made a presentation addressing the key questions sent to them by the Panel prior to the meeting.

We heard that the context of each school is very different and therefore the way they are using their delegated monies to address behaviour issues is bespoke to each. We felt this was positive and appropriate because schools are then able to tailor the services to their pupils needs. We noted that only a small amount of the work

completed in both schools in relation to behaviour matters was funded via this delegated pot, with a much larger amount being funded from within school budgets. For example for pastoral support, ALN, school nurses etc.

Both schools have developed a provision where their aim is to enable pupils, which includes working with partners, to provide a curriculum that is appropriate to meet the needs of individual pupils. We understand the importance of wellbeing in schools and were pleased to hear the Headteacher at Bishop Gore say '*they strive to provide supportive learning environments that are both stimulating and challenging, where pupils are encouraged, praised and nurtured in order to develop self-awareness and discipline'*.

We were pleased to hear that both schools integrate pupils back into mainstream after a period in EOTAS using a hybrid approach with bespoke timetables including a mix of mainstream provision.

We heard that training for school staff is a key feature in addressing behaviour and both schools have shown their commitment to this. We were interested to hear about, for example, the Thrive Strategy, an approach that helps teachers develop pupil's social and emotional skills. Also, about the other initiatives and activities that engage pupils and help them manage their behaviour like Bulldog Boxing and the Baxter Project.

We did share both the Headteacher's concerns in relation to how the pandemic has affected pupils and schools including:

- Stopping of outdoor visits and use of external providers
- the negative impact on some pupil's mental health and wellbeing, with some pupils having experienced additional trauma, like crisis/bereavement and lost employment/financial worries
- the pupils daily routines were disrupted. Lack of tolerance towards others
- some vulnerable pupils did not participate in blended learning opportunities (unwilling/reluctant/too anxious to engage in online learning)
- pupils identified with additional needs including SEBD, were unable to access the support usually received in the school setting
- support services were not able to conduct direct face to face work and so some families declined support and refused to engage remotely

We recognise that schools are working to address these issues now that pupils are fully back in school, but we felt it was important it emphasise the importance of continued support to schools on these matters.

We also heard that both schools found it necessary to re-establish boundaries for their pupils after they had spent large amounts of time at home. Pupils were behaving well in the structured classroom environment but issues were arising in those unstructured places like at break time. Both schools have worked to address this. The Headteacher from Pontarddualis School said '*over the last half term there has been a marked improvement in behaviour around the school and pupils have adapted remarkably well, however there are have been pressures on staffing and costs around these issues'* .

We were encouraged to hear that the impact of the work being done at both schools has reduced exclusions, EOTAS referrals, improved educational outcomes and has increased pupil confidence.

We were keen to emphasise the importance of sharing the good practice being shown by both schools including what has been learnt through the pandemic. We asked how this is done and we heard that there are a number of formal and informal mechanisms designed for this purpose, by using online platforms and via meetings like for example SCCASH.

**Regional Scrutiny**

I updated the Panel on my recent attendance at the Regional ERW Scrutiny Councillor Group meeting on the 28 June 2021, informing them of some of what was discussed. And said I thought things may have moved on since that meeting, which was confirmed by the Director of Education.

- Shadow South West Wales Education Partnership Joint Committee has met twice.
- Concerns raised by the Scrutiny Councillor Group were discussed in this meeting. They agreed that work needed to be done to wind down ERW.
- Agreement has been made in principle for services of the new Partnership would be available to other local authorities.
- It was recognised that ERW would not wind down fully by 31 August and there will be a period of transition required.
- We wanted clarity on the liabilities of the existing partnership and the liabilities until the end of the transition period.
- The staffing structure for the new partnership has been reduced in proportion to new body with a scaling down of approximately 40%.
- The Governance structure will appear in the new legal agreement. This is currently in draft and needs to be finalised. It does include some of the issues raised by the Scrutiny Councillor Group on the 28 June and these have been put into that draft. There is still work to be done and it is planned that the draft legal agreement will go to each Local Authority in the autumn.
- We asked if the new partnership would have a clear business plan by the 1 September and we were told that will be the case.
- We said we would like to see an informal scrutiny model similar to the one currently in place.
- We suggested that the Chair of the Regional Joint Committee attend some of the Scrutiny meetings to discuss performance of the body.
- We would like the chair of the new scrutiny body to attend the Joint Committee in at least an observer capacity. We were informed that this is planned as part of the new agreement.

**Your Response**

We would welcome your comments on any of the issues raised but can you provide a written response to the following points by 23 August 2021.

We would like to hear your views on the points raised by the Headteacher’s attending and how, if appropriate, these could be supported more widely. Headteacher’s were asked how they believe work in this area could be improved, they said, improvements could be made by:

1. continued Cynnydd funding (highlighted at SCCASH meeting), funding of pre 14-16 to prevent EOTAS referrals and to train more staff in the Thrive approach.
2. improvement to behaviour strategy could be made but the strategies and approaches being flexible to meet the changing needs of the pupils. This means upskilling staff to ensure they have training such as ELSA, CBT etc. This is costly but we need the agility to respond swiftly. We need also need to develop programmes around mental health, tolerance and contextualised safeguarding. Initiatives such as the Cynnydd Learning Coaches help and support our pupils to look at pathways and self-regulation. These roles are grant funded and the money is coming to an end for many of these types of projects.
3. how we subsidise our provisions, the need to ensure that roles and provision are sustainable to enable planning to take place to continue to meet the needs of for learners given the very specific issues that are now emerging as a result of the pandemic.

Yours sincerely

**COUNCILLOR LYNDON JONES**
Convener, Education Scrutiny Performance Panel
Cllr.lyndon.jones@swansea.gov.uk